

Adran Gyllid Cyngor Wreccsam

**Talu am Wasanaethau Gofal Cymdeithasol:
Preswyl/Nyrsio**



Canllaw Gwybodaeth Ariannol i bobl sy'n mynd i gartref gofal, neu gartref gofal nyrsio

Mae'r llyfryn hwn yn egluro:

1. Am y wybodaeth hon
2. Gofal Cartref/Amhreswyl
3. Gofal seibiant/dros dro
4. Yr Asesiad Ariannol
5. Budd-daliadau
6. Eiddo
7. Y Cynllun Taliadau Gohiriedig
8. Gofal Nyrsio
9. Beth os yw fy amgylchiadau'n newid?
10. Beth sy'n digwydd i wybodaeth bersonol/ariannol?
11. Ymholiadau a herio Deilliant yr Asesiad
12. Cwestiynau, awgrymiadau, cwynion, canmoliaeth a sylwadau
13. Cysylltiadau defnyddiol
14. Ffyrdd eraill o dalu am ofal preswyl/nyrsio

1. Am y wybodaeth hon

Mae'r wybodaeth hon yn seiliedig ar "Bolisi Codi Tâl" Cyngor Wrecsam am wasanaethau gofal cymdeithasol fel y cymeradwywyd gan Fwrdd Gweithredol y Cyngor ar 11 Hydref 2016. Mae ar gyfer pobl sy'n mynd i gartref gofal neu gartref gofal nyrsio. Mae'n egluro'r gost o symud i Gartref a sut y gallwch fod yn gymwys am gymorth tuag at y costau. Mae'n egluro'r gwahanol brosesau asesu ariannol, yn dibynnu ar ba un a yw'n drefniant parhaol neu dros dro. Rydym yn deall y gall hwn fod yn gyfnod anodd i chi a'ch perthnasau a gobeithio y bydd y wybodaeth hon o gymorth i chi.

Sylwer bod y rheolau ar asesiadau ariannol, ffioedd sy'n daladwy a therfynau cyfalaf yn gallu newid. Mae'r daflen hon yn gyfredol ar gyfer Ebrill 2017 i Mawrth 2018. Er mwyn gweld a wnaed unrhyw newidiadau ers ei chyhoeddi dylech siarad gydag Adran Asesiad Ariannol y Cyngor.

Mae Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn parhau i edrych ar ba un a ddylai'r system bresennol ynglyn â 'thalu am ofal' aros fel y mae neu newid. Mae hyn yn cael ei godi'n aml ac mae'n derbyn sylw yn y cyfryngau. Mae'n bosibl y bydd terfynau cyfalaf a thrin eiddo yn cael eu hadolygu ymhellach yn y dyfodol agos. Ni fydd unrhyw newidiadau a wnaed yn Lloegr yn angenrheidiol yn berthnasol i Gymru ac i'r gwrthwyneb. Os a phan fydd y rheolau'n newid, bydd Cyngor Wrecsam yn hysbysu pawb mewn da bryd. Am y tro, mae'r wybodaeth yn y canllaw hwn yn parhau'n gyfredol ac yn ddilys ond fe'i bwriedir fel canllaw yn unig ac nid yw'n ddatganiad awdurdodedig o'r gyfraith.

Mae'r wybodaeth hon wedi'i llunio i ateb y cwestiynau ariannol mwyaf cyffredin y gofynnir i ni am gartrefi preswyl a nyrsio. Ar ôl darllen y wybodaeth, os teimlwyd yr hoffech eglurhad pellach am unrhyw bwyntiau, gallwch gysylltu â Thîm Asesiad Ariannol yr Uned Mwyhau Incwm ar **01978 298220**.

Os ydych angen gwybodaeth ynglyn â'ch asesiad anghenion gofal, gallwch siarad â'r Tîm Ymateb Cychwynnol ar **01978 292066** neu'r Rheolwr Gofal (Gweithiwr Cymdeithasol).

2. Gofal Cartref/Amhreswyl

Ar gyfer rheolau ariannol sy'n ymwneud â gwasanaethau a ddarperir yn y gymuned (Canolfannau Dydd, cartrefi pobl ac ati) gweler y daflen "Talu am Wasanaethau Gofal Cymdeithasol:Cartref/Seibiant"

3. Gofal seibiant a dros dro

Os ydych yn mynd i gartref preswyl neu nyrsio am seibiant a mathau eraill o ofal dros dro tymor byr, yna mae'r rheolau yn unol ag adran 2 uchod. Fodd bynnag, mae rhai lleoliadau gofal cartref/nyrsio dros dro yn cael eu trin yr un fath â lleoliadau parhaol yn y broses asesiad ariannol ac mae'r rheolau yn unol â gweddill y daflen hon yn briodol. Mae hyn yn cynnwys unrhyw leoliad dros dro sydd wedi'i ail-ddynodi'n barhaol yn ystod yr 8 wythnos gyntaf lle codir tâl am hyd at gost llawn gwasanaeth o

ddyddiad y penderfyniad hwnnw. Hefyd, os yw cyfnod yr arhosiad yn y Cartref Gofal yn debygol o fod yn fwy nag 8 wythnos parhaus ac na ellir ei amcangyfrif, bydd y defnyddiwr gwasanaeth yn amodol ar gostau llawn y gwasanaeth o'r dechrau ac NID y mwyafswm o £70 fel yn 2 uchod.

4. Yr Asesiad Ariannol

Mae'r swm y bydd yn rhaid i chi ei dalu tuag at eich arhosiad mewn cartref preswyl neu nyrsio yn dibynnu ar eich incwm a chyfalaf. Darperir rhai enghreifftiau o'r rhain isod, ond sylwer efallai y bydd yna fathau eraill sy'n rhaid i ni eu hystyried. Ar gyfer pob incwm, cyfalaf neu arbedion, mae'n rhaid i ni weld tystiolaeth o fantolenni cyfrifon cyfredol; er enghraifft mantolen banc.

Beth sy'n cael ei gyfrif fel incwm?

Mae incwm yn golygu taliad rheolaidd yr ydych yn ei dderbyn ac mae'n cynnwys Pensiwn Ymddeoliad y Wladwriaeth, Credyd Pensiwn, Lwfans Mynychu, Pensiynau Galwedigaethol ac unrhyw flwydd-dal, cronfeydd ymddiriedolaeth, incwm rhent ac ati.

Beth sy'n cael ei gyfrif fel cyfalaf?

Cyfalaf yw eich cynilion ar eiddo. Mae cynilion yn cynnwys cyfrifon banc, swyddfa post neu gymdeithas adeiladu, Tystysgrifau Cynilion Cenedlaethol, bondiau, ISA a chyfranddaliadau. Gall fod yn eich enw chi yn unig neu ar y cyd. Dylech fod yn ymwybodol bod yna fathau arbennig o gyfalaf na fyddai'n angenrheidiol yn mynd â chi dros y trothwy uchod y codir tâl arnoch am gost llawn y gwasanaethau a ddarperir. Os ydych angen mwy o wybodaeth ynglyn â pha fathau o gyfalaf/fuddsoddiadau a ystyrir yn llawn neu'n rhannol neu a ddiystyir yn llawn neu'n rhannol, yna cysylltwch â'r Tîm Asesiad Ariannol ar **01978 298220**.

Bydd Swyddog Asesiad Ariannol yn cysylltu â chi i'ch helpu i lenwi'r Ffurflen Asesiad Ariannol. Diben y ffurflen yw sicrhau eich bod yn derbyn gwybodaeth ariannol gywir i'n cynorthwyo i weithio allan y cyfraniad cywir rydych angen ei wneud tuag at eich costau gofal.

A fydd yn rhaid i mi dalu tuag at fy lleoliad?

Heblaw am y defnyddwyr gwasanaeth hynny sy'n amodol ar Adran 117 y Ddeddf Iechyd Meddwl 1983, mae'n rhaid i bob oedolyn dalu rhywbeth tuag at ei ofal preswyl/nyrsio. Os ydych wedi cael eich asesu gan yr Adran Gofal Cymdeithasol fel rhywun sydd angen gofal preswyl neu nyrsio tymor hir, byddwn yn cynnal asesiad ariannol.

Faint fydd yn rhaid i mi ei dalu?

O dan y ddeddfwriaeth bresennol mae'n rhaid i unrhyw un sydd â mwy na £30,000 o gyfalaf neu gynilion dalu cost llawn y lleoliad yn y Cartref. Nid yw hyn yn cynnwys y taliad gofal nyrsio cofrestredig ar gyfer lleoliadau nyrsio. Gweler Adran 8, Gofal Nyrsio.

Costau cartref gofal preswyl/nyrsio

I wybod faint mae'r Adran Gofal Cymdeithasol Oedolion yn gyfrannu ar hyn o bryd tuag at gost lleoliad preswyl/nyrsio mewn cartref preifat, cysylltwch â'r Adran Asesiad Ariannol ar **01978 298220**.

Sut rydym yn cyfrif eich cyfraniad

Wrth gyfrif eich cyfraniad, mae'r Cyngor yn anwybyddu unrhyw gyfalaf sydd gennych hyd at £30,000. Os ydych yn cael eich asesu gyda dros £30,000, ni fydd yr Awdurdod Lleol yn talu unrhyw beth tuag at gost eich arhosiad mewn cartref gofal a byddwch yn cael eich trin fel 'hunan-gyllidwr'.

Yn gyffredinol, mae'r rhan fwyaf o'ch incwm, gan gynnwys Budd-daliadau Nawdd Cymdeithasol, yn cyfrif tuag at gost eich gofal.

Mae'r Ffurflen Asesiad Ariannol yn hynod bwysig gan ei bod yn rhoi manylion am eich incwm a'ch cyfalaf/cynilion. Gwnewch yn siwr bod y ffurflen yn cael ei llenwi a'i dychwelyd yn gywir. Os na fydd yn cael ei llenwi'n gywir, ni fyddwn yn gallu cyfrif eich cyfraniad tuag at gost eich arhosiad yn gywir, ac efallai y bydd yn rhaid i chi dalu'r gost llawn.

Os bydd rhywun arall yn llenwi'r ffurflen ar eich rhan, dylent gael awdurdod cyfreithiol priodol i wneud hynny. Dylid amgáu tystiolaeth o'u hawdurdod gyda'r ffurflen e.e. Penodedig budd-dal yr Adran Gwaith a Phensiynau, Atwrneiaeth Arhosol ac ati.

Unwaith y byddaf mewn gofal preswyl/nyrsio faint fyddaf yn gallu ei gadw ar gyfer costau personol?

O Ebrill 2017 y swm y cewch gadw ar gyfer eich anghenion personol eich hun yw £27.50 dros gostau eich gofal y cytunwyd arno gan yr awdurdod lleol. Os yn gymwys, gallwch hefyd gadw hyd at £5.75 pellach fesul unigolyn neu £8.60 fesul cwpl o'r Credyd Pensiwn.

Beth os bydd ffioedd y Cartref yr wyf wedi'i ddewis yn ddrutach na'r hyn mae'r Adran Gofal Cymdeithasol yn ei ystyried yn rhesymol?

Mae gan Adran Gofal Cymdeithasol i Oedolion Wrecsam uchafswm pris ar gyfer categorïau gofal preswyl a nyrsio. Os bydd cost y cartref rydych wedi'i ddewis yn fwy na'r mwyafswm ar gyfer yr awdurdod hwn, bydd rhywun angen talu'r diffyg, a elwir yn aml y "Tâl Atodol".

Gall preswylwyr dalu'r tâl hwn eu hunain ond o dan y rheolau diystyru eiddo 12 wythnos yn unig (trwy ddefnyddio'r Cynllun Taliadau Gohiriedig). Gweler Adran 7, y Cynllun Taliadau Gohiriedig a'r daflen "Talu am Wasanaethau Gofal Cymdeithasol; Cynllun Taliadau Gohiriedig".

Felly ni all y trigolion hynny nad ydynt yn derbyn cymorth o dan y Cynllun Taliadau Gohiriedig neu ddiystyru eiddo 12 wythnos dalu tâl atodol o'u hadnoddau eu hunain. Yn hytrach mae'n rhaid i chi sicrhau bod perthynas neu ffrind yn gallu talu'r gwahaniaeth ac mewn sefyllfa i wneud y tâl atodol hwn ar gyfer cyfnod eich arhosiad. Dylent hefyd ymrwymo i gytundeb ffurfiol gyda'r Adran Gofal Cymdeithasol a gallu cynnal y cytundeb hwn (y Cytundeb "Trydydd Parti") trwy gydol cyfnod y lleoliad (gweler isod). Bydd y Cartref yn darparu'r Ffurflen Contract Trydydd Parti i chi neu'r sawl sy'n gweithredu fel y Trydydd Parti ar eich rhan.

Sut ydw i'n cael gwybod y swm sy'n rhaid ei dalu?

Ar ôl llenwi'r Ffurflen Asesiad Ariannol bydd y Tîm Asesiad Ariannol yn eich hysbysu'n ysgrifenedig faint fydd yn rhaid i chi ei dalu. Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y swm, gallwch gysylltu â'r Tîm Asesiad Ariannol ar **01978 298220**.

Sut y gwneir taliadau

Byddwch yn talu eich cyfraniad tuag at y cyfanswm yn uniongyrchol i'r Cartref lle'r ydych wedi symud. Bydd y Tîm Asesiad Ariannol yn talu swm yr Adran Gofal Cymdeithasol yn uniongyrchol i'r Cartref a lle bo'n briodol, yn casglu cyfraniad y Bwrdd Iechyd Lleol ac yn talu hwnnw i'r Cartref hefyd.

Taliadau atodol trydydd parti

Mae'r rhain yn amodol ar gytundeb rhwng y sawl sy'n gwneud y taliad ar eich rhan a'r Cartref. Mae Adran Gofal Cymdeithasol Wrecsam angen manylion y sawl sy'n gwneud y taliadau trydydd parti. Byddwn yn darparu llythyr i'r trydydd parti yn eu cyngori am eu cyfrifoldeb i dalu'r Cartref Gofal yn uniongyrchol a bydd y trydydd parti yn llofnodi ffurflen ar gyfer ein cofnodion. Atgoffir chi nad oes gan y preswylydd hawl i ddefnyddio eu lwfans personol wythnosol (a elwir hefyd yn "Arian Poced") i dalu unrhyw dâl atodol.

5. Budd-daliadau

Fydda i'n gallu hawlio Credyd Pensiwn?

Mae Credyd Pensiwn y Wladwriaeth yn fudd-dal prawf modd ar gyfer pobl oedran pensiwn. Gallwn eich helpu i hawlio Credyd Pensiwn os dymunwch, cysylltwch â'r Tîm Hawliau Lles ar **01978 298255** am gyngor pellach.

Sylwer os byddwch yn penderfynu peidio hawlio Credyd Pensiwn pan mae gennych hawl i wneud hynny, byddwch er hynny'n cael eich asesu'n ariannol fel y byddech yn derbyn y budd-dal.

A fydd mynd i ofal parhaol yn effeithio ar unrhyw fudd-daliadau rwyf yn eu hawlio nawr?

Bydd Lwfans Mynychu / Lwfans Byw i'r Anabl (Elfen Gofal) / Taliad Annibyniaeth Bersonol (Elfen Byw Bob Dydd) yn dod i ben ar ôl 28 diwrnod o fod i ffwrdd o'ch cartref eich hun yn barhaus os ydych yn derbyn cymorth ariannol tuag at gost eich arhosiad gan yr awdurdod lleol. Os nad yw'r awdurdod lleol yn gwneud unrhyw gyfraniad, byddwch yn parhau â hawl i'r budd-daliadau hyn. Os ydych yn derbyn unrhyw fudd-daliadau eraill a bod gennych unrhyw ymholiadau ynglyn â pharhau i hawlio (gan gynnwys beth sy'n digwydd i fudd-daliadau pan fyddwch yn yr ysbyty), cysylltwch â Hawliau Lles fel yr uchod.

6. Eiddo

Ydy bod yn berchen ar fy eiddo fy hun yn effeithio ar fy nhaliadau?

Mae hyn yn dibynnu ar ba un a oes yna rywun arall yn byw yn yr eiddo ai peidio. Os mai chi yn unig sy'n byw yn yr eiddo, nid yw gwerth eich eiddo yn cyfrif ar gyfer 12 wythnos cyntaf lleoliad parhaol ond caiff ei gynnwys ar ôl 12 wythnos (os caiff ei werthu o fewn y 12 wythnos cyntaf caiff y derbyniadau eu cymryd i ystyriaeth fel rhan o'r asesiad ariannol). Mae hwn yn cael ei alw'r cyfnod diystyru 12 wythnos (gweler Adran 6 ar dudalen 6 am fanylion pellach).

Yn ystod y cyfnod diystyru 12 wythnos hwn dylai taliad unrhyw Lwfans Mynychu, Elfen Gofal o Lwfans Byw i'r Anabl neu Elfen Byw Bob Dydd o Daliad Annibyniaeth Bersonol ddod i ben ar ôl mwyafswm o 28 diwrnod am gyhyd ag y bydd yr awdurdod lleol yn 'diystyru'r' eiddo. Os byddwch yn derbyn un o'r budd-daliadau hyn dylech gysylltu â Chanolfan Budd-daliadau i'r Anabl, Warbeck House, Warbeck Hill Road, Blackpool, FY2 0YE, Ffôn: **08457 123456** i'w hysbysu am y trefniadau. Eto, nid yw hyn yn berthnasol os ydych yn talu am y lleoliad i gyd eich hun. Dylai unrhyw ymholiadau pellach ynglyn â budd-daliadau yn gyffredinol gael eu cyfeirio i Hawliau Lles fel yr uchod.

Os ydw i'n berchennog ty, a fydd disgwyl i mi ei werthu?

Nid oes gan yr awdurdod lleol y grym i orfodi rhywun i werthu eiddo, ond er nad yw gwerth eich eiddo yn cyfrif ar gyfer 12 wythnos cyntaf lleoliad parhaol, caiff ei gynnwys ar ôl 12 wythnos (neu ei werth ariannol, os caiff ei werthu cyn 12 wythnos).

Bydd gwerth ty neu unrhyw eiddo arall neu dir sy'n eiddo i chi yn cael ei gymryd i ystyriaeth wrth gyfrif eich cyfraniad tuag at eich gofal.

Fodd bynnag, yn yr amgylchiadau canlynol, ni fydd eich eiddo yn cael ei gymryd i ystyriaeth wrth gyfrif eich cyfraniad wythnosol:

- Eich partner (cyn belled nad ydych wedi ysgaru neu wedi gwahanu) yn aros yn yr eiddo.
- Perthynas 60 oed neu hyn yn aros yn yr eiddo.
- Perthynas 16 oed neu iau (sy'n gyfrifoldeb i chi) yn aros yn yr eiddo.
- Perthynas sy'n anabl mewn ryw ffordd yn aros yn yr eiddo.

Mae gan yr awdurdod lleol ddisgresiwn, mewn rhai amgylchiadau eraill, i ddiystyru gwerth yr eiddo. Er enghraifft, os bydd eich gofalwr tymor hir yn parhau i fyw yno, neu os byddai gwerthu'r ty yn achosi caledi i rywun sydd wedi bod yn rhannu eich cartref yn barhaol.

Mewn amgylchiadau o'r fath, byddwch angen cyflwyno cais ysgrifenedig ar gyfer diystyru a rhoi'r ffeithiau i gefnogi eich cais. I wneud hyn, ysgrifennwch at eich Rheolwr Gofal (Gweithiwr Cymdeithasol) neu'r Swyddog Asesiadau Ariannol. Byddwn yn eich hysbysu'n ysgrifenedig am benderfyniad yr awdurdod lleol. Mae gan yr awdurdod hawl i gofrestru diddordeb (pridiant cyfreithiol) yn eich eiddo os bydd angen.

Mae hawliad Credyd Pensiwn yn ystyried gwerth eiddo unigolyn wrth gyfrif eu cyfalaf (os ydych yn byw mewn Cartref Gofal), ond gall eich eiddo gael ei ddiystyru unwaith y bydd yn cael ei roi ar y farchnad. Os byddwch yn cymryd camau i werthu'r eiddo yna efallai y byddai'n werth ystyried cais am Gredyd Pensiwn. Dylech gysylltu â'r Adran Gwaith a phensiynau i wneud cais. Mae rheolau a phrosesau budd-daliadau gwa-hanol yn berthnasol i bobl oedran gwaith. Am gyngor pellach siaradwch gyda Hawliau Lles ar **01978 298255**.

Beth sy'n digwydd os byddaf yn cael anhawster gwerthu fy nhŷ?

Os na fyddwch wedi gwerthu eich eiddo ar ôl y 12 wythnos cyntaf, bydd gwerth eich cartref yn cael ei gymryd i ystyriaeth yn eich asesiad ariannol.

Yna bydd y Tîm Asesiad Ariannol yn cael ffigwr prisiad ac yn ei ddefnyddio i weithio allan eich taliad fel pe bai'n swm o gynilion sydd ar gael i chi. Gan dybio na fyddwch mewn sefyllfa i dalu'r ffi gofal cartref wythnosol llawn, bydd dyled yn cronni ond nid oes yn rhaid ei ad-dalu nes bydd yr eiddo wedi'i werthu neu'r lleoliad wedi dod i ben, pa un bynnag sy'n digwydd gyntaf. Yn y cyfamser, bydd y Cyngor yn talu'r ffioedd, heb gynnwys y cyfraniad y byddwch yn ei wneud o'ch incwm.

Bydd yr Awdurdod Lleol yn dangos diddordeb, neu bridiant cyfreithiol ar yr eiddo gyda'r Gofrestrfa Tir, sy'n golygu bod yn rhaid talu gweddill y balans pan fydd y ty wedi'i werthu. Mae hyn yn amddiffyn y swm o arian sy'n ddyledus i'r Awdurdod Lleol.

Pan fydd y ty yn cael ei werthu'n ddiweddarach, dylai eich Cyfreithiwr anfon manylion derbyniadau net y gwerthiant i Gyfreithiwr y Cyngor. Yna bydd y Swyddog Asesiadau Ariannol yn gallu sicrhau bod y ffigyrau cywir wedi eu defnyddio wrth gyfrif yr ôl-ddyledion sy'n ddyledus bryd hynny. Ni all y Cyngor godi llog ar y balans sy'n weddill nes bydd yr eiddo wedi'i werthu neu'r lleoliad wedi dod i ben, pa un bynnag sy'n digwydd gyntaf. Yn yr amgylchiadau hyn, bydd llog yn cael ei godi ar y balans sy'n weddill o'r diwrnod yn dilyn y farwolaeth. Mae'r rheolau hyn yn wahanol o dan y Cynllun Taliadau Gohiriedig.

Beth os ydw i'n berchennog cyn dy Cyngor a brynwyd o dan y cynllun "Hawl i Brynu"?

Os ydy'r ty sy'n eiddo i chi yn gyn dy Cyngor a brynwyd o dan y cynllun "Hawl i Brynu" a bod rhywun arall wedi eich helpu i'w brynu, mae'n bosibl diystyru'r gwerth (neu gyfran o'r gwerth). Mae'r sawl wnaeth eich helpu i brynu'r ty angen dangos tystiolaeth dderbyniol o'u cyfraniad.

Nid w hwn yn ddiystyriad awtomatig ac mae'n rhaid i bob achos gael ei ystyried yn unigol. Felly, dylid cyflwyno tystiolaeth gyda'ch Ffurflen Asesiad Ariannol a byddwch yn cael eich hysbysu am benderfyniad yr Adran Gofal Cymdeithasol yn ysgrifenedig.

Beth sy'n digwydd os byddaf yn rhoi fy nhy neu asedau eraill i rywun, neu'n eu trosglwyddo i enw rhywun arall?

Os bydd unigolyn yn rhoi eu ty, cynilion neu asedau eraill i ffwrdd cyn mynd i ofal preswyl/hyrsio neu pan maent yn byw yno'n barod, byddwn yn archwilio'r amgylchiadau'n fanwl. Byddwn hefyd yn archwilio gwerthiant unrhyw ased arall yn is na gwir werth y farchnad.

Gan fod gennym ddyletswydd i warchod arian cyhoeddus, mae'n rhaid i ni edrych i weld os mai prif rheswm cael gwared â'r eiddo oedd i osgoi talu am, neu tuag at gostau gofal preswyl/hyrsio.

Os byddwn yn penderfynu bod ffactor yn y penderfyniad i roi eiddo i ffwrdd, ei drosglwyddo neu ei werthu am lai na'i werth ar y farchnad i osgoi talu ffioedd neu leihau'r swm sy'n daladwy, mae'r gyfraith yn caniatáu i ni gymryd camau. Yn dibynnu ar yr amgylchiadau, gallwn naill ai eich asesu fel rhywun sy'n parhau'n berchennog yr ased(au), neu ofyn i'r sawl y gwnaethoch roi'r eiddo iddynt gyfrannu tuag at eich ffioedd.

Bydd unrhyw roddion mawr neu drosglwyddo perchnogaeth yn cael eu harchwilio a chmau cyfreithiol priodol yn cael eu cymryd i adfer y symiau hyn.

Mae'r achosion hyn yn cael eu hystyried gan banel o uwch swyddogion a gall eu penderfyniad gael ei herio gennych chi trwy weithdrefn gwynion safonol y Cyngor os byddwch yn anghytuno.

Beth sy'n digwydd os byddaf yn mynd i Ofal Preswyl a bod fy mhartner yn aros yn y cartref?

Mae'r asesiad ariannol yn seiliedig ar eich incwm ac asedau yn unig. eich partner yn aros yno).

7. Y Cynllun Taliadau Gohiriedig

Os bydd unigolyn yn berchennog ty ac yn symud i gartref gofal mae'r cynllun hwn wedi'i ddylunio i'w cynorthwyo i dalu eu ffioedd cartref gofal. Am bridiant cyfreithiol ar eu heiddo, bydd y Cyngor yn talu costau gofal y cytunwyd arno, fydd yn cael ei ad-dalu ar ôl i'r eiddo gael ei werthu. Mae yna ffioedd a chostau eraill cysylltiedig â Thaliadau Gohiriedig.

Cysylltwch â'r Tîm Asesiad Ariannol am wybodaeth bellach a'n taflen ar wahân, "Talu am Wasanaethau Gofal Cymdeithasol: Cynllun Taliadau Gohiriedig".

8. Gofal Nyrsio

Beth yw taliadau Gofal Nyrsio Cofrestredig?

Mae nyrs gofrestredig yn asesu lleoliad nyrsio'r holl drigolion ac yna mae swm penodedig yn cael ei dalu gan y Bwrdd Iechyd Lleol. O 1 Ebrill 2017 mae hyn yn £149.67 yr wythnos yng Nghymru (mae cyfraddau gwahanol yn berthnasol yn Lloegr).

Bydd y swm hwn yn cael ei dalu'n uniongyrchol i'r cartref nyrsio. Ni fydd hyn yn effeithio ar y cyfraniad gan y preswlydd oni bai eu bod yn talu tâl llawn eu lleoliad eu hunain.

Mewn achosion o'r fath dylai'r preswlydd wirio bod eu ffioedd wythnosol wedi gostwng yn unol â hynny.

Mae llyfryn “NHS Funded Nursing Care in Nursing Homes – What it means for you” ar gael gan yr Adran Iechyd.

9. Beth os bydd fy amgylchiadau’n newid o gwbl?

If you think your circumstances have changed and you require advice, please contact the Financial Assessment Team on **01978 298220**. If necessary, a new Financial Assessment Form will be completed.

Mae’r newidiadau’n cynnwys:

- Cynnydd/gostyngiad mewn incwm neu gyfalaf
- Nid yw eiddo oedd yn cael ei ddiystyru o’r blaen yn dod o fewn y meini prawf diystyru mwyach e.e. perthynas 60

Beth os ydw i’n talu fy hun a bod y cyfalaf gennyf o dan £30,000?

Mae’n bosibl y bydd yr awdurdod lleol yn gallu talu rhan o gost eich lleoliad nawr. Fodd bynnag, mae hyn yn dibynnu ar yr incwm rydych yn ei dderbyn o ffynonellau eraill e.e. pensiwn galwedigaethol. Byddwch angen cysylltu â’r Tîm Ymateb Cychwynnol ar **01978 292066**.

Bydd yr Adran Gofal Cymdeithasol ond yn ymwybodol o newidiadau o’r natur hyn os byddwch yn rhoi gwybod iddynt.

10. Beth sy’n digwydd i’r wybodaeth ariannol a phersonol a roddir?

Bydd yr Adran Gofal Cymdeithasol yn delio gyda’r holl wybodaeth yn gwbl gyfrinachol.

Ni chaiff y wybodaeth ei defnyddio at ddiben arall heblaw ar gyfer cyfrif y cyfraniad disgwylidig tuag at y taliadau.

Ni fydd ar gael i unrhyw un nad yw’n gysylltiedig â’r cyfrifiad a’r bilio.

11. Ymholiadau a Herio Deilliant yr Aseiad

Os bydd gennych unrhyw gwestiynau ynglyn â deilliant yr aseiad ariannol, gallwch gysylltu â'r Swyddog Aseidiadau Ariannol (yn unol â manylion mewn llythyr a anfonwyd atoch chi). Bydd y Swyddog yn gwirio'r cyfrif eto ac yn eich hysbysu am unrhyw ffigurau diwygiedig.

Os byddwch yn parhau'n anhapus gyda'r eglurhad, dylech hysbysu'r Swyddog fydd wedyn yn cyfeirio'r achos i'r Rheolwr Adran i'w archwilio ymhellach.

Bydd hyn yn cynnwys eich gwahodd i wneud cais ffurfiol i adolygu taliadau. Byddwch yn cael ffurflen i'w llenwi (neu'n cael cymorth i wneud hyn os dymunwch) gan nodi pan rydych yn anghytuno gyda chanlyniad yr aseiad. Yna, bydd eich achos yn cael ei ailystyried a bydd penderfyniad prydlon yn cael ei gyflwyno i chi. Os byddwch yn parhau'n anfodlon yna gellir codi'r mater trwy broses Sylwadau a Chwynion yr Adran Gofal Cymdeithasol Oedolion.

12. Cwestiynau, awgrymiadau, cwynion, canmoliaeth a sylwadau

Mae Adran Gofal Cymdeithasol Oedolion Wrecsam yn croesawu adborth gan ein bod yn defnyddio'r wybodaeth hon i ddysgu gwersi a gwella'r gwasanaethau a ddarperir. Os dymunwch ofyn cwestiwn, gwneud awgrym, canmol neu gwyno am wasanaethau, yna gellir gwneud hyn trwy aelod o staff neu'r Rheolwr.

Gellir cwyno wrth yr aelod o staff hefyd neu'r Rheolwr. Neu, gallwch gyfeirio'n uniongyrchol at y Tîm Cwynion. Eu manylion cyswllt yw:

Tîm Cwynion
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Neuadd y Dref
Wrecsam
LL11 1AY
E-bost: complaints@wrexham.gov.uk
Ar lein: www.wrexham.gov.uk/complaints
Ffôn: 01978 292087

13. Cysylltiadau defnyddiol

Os ydych yn ystyried mynd i gartref preswyl neu nyrsio, neu'n gweithredu ar ran rhywun yn y sefyllfa honno a hoffech wybodaeth bellach, cysylltwch ag:

Adran Gofal Cymdeithasol Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

1. **Tîm Ymateb Cychwynnol** ar **01978 292066**. Delio gydag atgyfeiriadau cychwynnol i'r Adran.
2. **Uned Mwyhau Incwm** ar **01978 298255**. Mae'n cynnwys y Timau Aseiad Ariannol a Hawliau Lles.

Llywodraeth Cymru (LIC) yn llunio dogfen 'Meddwl am Gartref Gofal' sy'n cynnwys gwybodaeth debyg i'r canllaw hwn. I gael copi cysylltwch â Llywodraeth Cymru ar **03000 603300** neu ewch i <http://gov.wales/topics/health/publications/socialcare/guidance1/carehome/?skip=1&lang=cy>

Mae'r Adran Iechyd wedi llunio llyfryn defnyddiol a elwir yn "Llawlyfr Cartref Gofal." Ffoniwch **020 7210 4850** i gael rhagor o wybodaeth.

Cyngor ar Bopeth – gallu cynnig cyngor cyffredinol annibynnol a gall ddarparu manylion sefydliadau eraill, rhai wedi eu rhestru isod. 35 Ffordd Grosvenor, Wrecsam Ffôn: **0345 404 0506**.

Counsel and Care – Elusen Genedlaethol sy'n darparu amrywiaeth o wybodaeth ar faterion gofal. Gweler www.counselandcare.org.uk neu ffoniwch **0800 319 6789**.

Age UK – Elusen Genedlaethol yn hybu lles pobl hyn a helpu i wneud bywyd yn brofiad llawn a phleserus. Gweler www.ageuk.org.uk neu ffoniwch **0800 678 1174**.

Y Gwasanaeth Pensiwn – Rhan o'r Adran Gwaith a Phensiynau (DHSS, DSS ac Asiantaeth Fudd-daliadau gynt) sy'n delio gyda hawliadau a thaliadau budd-dal i bobl dros oed pensiwn. Gweler www.dwp.gov.uk neu ffoniwch **0345 606 0265**

Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) – Mae gan AGGCC Swyddfa Ranbarthol Gogledd Ddwyrain Cymru a leolir yn Llandudno. Mae'n gyfrifol am archwilio'r holl gartrefi gofal yn ardal Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Eu cyfeiriad cyswllt yw AGGCC

Rhanbarth Gogledd Cymru, Swyddfeydd Llywodraeth Cymru Sarn Mynach, Cyffordd Llandudno LL31 9RZ Ffôn: **0300 790 0126**. Yn Lloegr, mae yna'r Comisiwn Ansawdd Gofal.

14. Ffyrdd eraill o dalu am ofal preswyl/nysio

Mae yna amrywiaeth gynyddol o opsiynau eraill y gellid eu hystyried.

Mae'r rhain yn tueddu i fod yn bolisiau yswiriant mae pobl yn eu prynu/ talu i mewn iddynt dros nifer o flynyddoedd; maent yn dod i rym pan/os bydd rhywun angen mynd i gartref gofal. Nid yw'n lle Cyngor Wrecsam i wneud unrhyw sylw ar unrhyw gynnyrch ariannol neu gynllun yswiriant penodol ond gellir cael cyngor/gwybodaeth gan rai o'r sefydliadau a restrwyd uchod. Mae'n bosibl y gall Cynghorwyr Ariannol Annibynnol Cofrestredig eich arwain trwy'r cynlluniau sydd ar gael i deuluoedd pobl hyn sydd ar fin mynd neu eisoes mewn gofal preswyl neu nysio. Gall cynlluniau o'r fath roi cyfle i chi reoli eich taliadau cartref gofal yn wahanol a diogelu etifeddiaeth i'ch teulu.

Gallwch drefnu dyfynbris am ddim ar gyfer cynllun gofal uniongyrchol ar fuddsoddiad cyfandaliad, yn sicr o dalu'r diffyg mewn ffioedd gofal

cyn belled ag sydd angen. Gallwch hefyd dderbyn cyngor ar fuddsoddiadau a strategaethau amgen i dalu am y ffioedd gofal.

Mae Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn adolygu sut y dylid talu am ofal a chan bwy yn gyson. Bydd holl ddefnyddwyr gwasanaeth yn cael gwybod os neu pryd mae yna unrhyw newidiadau i sut mae Awdurdodau lleol angen asesu pobl yn ariannol..

**Mae'r daflen hon ar gael mewn ffurf arall.
Am fanylion pellach cysylltwch â
Gofal Cymdeithasol Oedolion
Ffôn: 01978 292066**